

TRWYDDEDAU TYNNU DŴR A CHRONNI DŴR  
CANLLAWIAU AR APELIO



## Cynnwys

	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Seiliau dros apelio	1
3. Cyn gwneud apêl	2
4. Pwy sy'n penderfynu ar apêl	2
5. Terfyn amser ar gyfer gwneud apêl	2
6. Hysbysiad o apêl	3
7. Effaith gwneud apêl	3
8. Camau gweithredu ar ôl derbyn apêl	3
9. Gweithdrefnau apeliadau	4
10. Penderfyniadau	6
11. Gwybodaeth ychwanegol	7
12. Adborth a chwynion	7
13. Heriau	8
14. Sut mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	8

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer apelio mewn perthynas â thrwyddedau i dynnu dŵr a thrwyddedau i Gronni llif dyfroedd mewndirol a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Maent yn esbonio'r cefndir deddfwriaethol, yn dwyn ynghyd y cyhoeddiadau gwahanol sy'n berthnasol i'r broses hon ac yn rhoi sylw i rai o'r materion penodol a allai fod yn destun apêl. Credwyd bod y wybodaeth hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi ac mae'n ymwneud â gweithdrefnau yng Nghymru yn unig, ond nid oes gan y canllawiau hyn unrhyw statws cyfreithiol.

1.2 Mae'r deddfwriaeth berthnasol sydd i'w dilyn fel a ganlyn:

- Daw apelïadau yn erbyn trwyddedau Tynnu Dŵr a Chronni Dŵr o dan Adran 36A a 43 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Dŵr 2003. Mae'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wedi'u nodi yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) 2006, "Rheoliadau 2006".
- Daw apelïadau yn erbyn trwyddedau Tynnu Dŵr trosiannol<sup>1</sup> o dan Adran 36A a 43 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Dŵr 2003. Mae'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wedi'u nodi yn Rheoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017, "Rheoliadau 2017".
- Daw prosiectau perthnasol lle ceir Asesu Effeithiau Amgylcheddol o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003, "Rheoliadau 2003".

## 2. Seiliau dros apelio

2.1 Gall ymgeiswyr ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr a chronni dŵr apelio ar y seiliau canlynol:

- pan fo cais wedi'i wrthod;
- pan fo trwydded wedi'i rhoi yn amodol ar amodau; neu
- pan fo CNC wedi methu â phenderfynu ar y cais o fewn y cyfnod o amser rhagnodedig (sef 3 mis neu gyfnod estynedig y cytunwyd arno).

2.2 Gall ymgeiswyr ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr trosiannol apelio ar y seiliau canlynol:

---

<sup>1</sup> Bellach, mae newidiadau rheoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i dynwyr dŵr a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol wneud cais am drwydded. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr sydd ers 2010 wedi tynnu dŵr heb ofyniad am drwydded.

- os ydych yn anghytuno bod angen cais am drwydded lawn, trwydded drosiannol neu drwydded dros dro ar gyfer un o'r mathau eraill o drwyddedau;
- os ydych yn anghytuno y dylid trin nifer o geisiadau am drwyddedau (o unrhyw fath neu fathau) i dynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi benodol fel cais am drwydded sengl o'r fath (o unrhyw fath);
- os ydych yn anghytuno y dylid trin cais am drwydded sengl (o unrhyw fath) i dynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi benodol fel nifer o geisiadau am drwyddedau o'r fath (o unrhyw fath neu fathau): neu
- os ydych yn anghytuno y dylai unrhyw gais o'r fath gynnwys cais i ddirymu trwydded sy'n bodoli i dynnu dŵr.

2.3 Gall ymgeiswyr ar gyfer prosiectau perthnasol, sy'n cynnwys Asesu Effeithiau Amgylcheddol, apelio ar y seiliau canlynol:

- penderfyniad CNC ar gais am ganiatâd o dan reoliad 10 y Rheoliadau; neu
- methiant CNC i roi hysbysiad i'r ymgeisydd o'u penderfyniad o fewn y cyfnod rhagnodedig (sef 3 mis neu gyfnod estynedig y cytunwyd arno).

### 3. Cyn gwneud apêl

3.1 Cynghorir darpar apelyddion i geisio datrys unrhyw anawsterau neu anghytundeb â CNC. Weithiau, gellir cytuno drwy ddiwygio'r amodau yn y drwydded. **Dylid trin apêl fel y dewis olaf.**

### 4. Pwy sy'n penderfynu ar apêl

4.1 Caiff y rhan fwyaf o apeliadau eu penderfynu gan Arolygydd a benodir o'r Arolygiaeth Gynllunio, ond gall Weinidogion Cymru gymryd yr achos os yw'n arbennig o bwysig neu ddadleuol. Pe bai hyn yn digwydd, rhoddir y rheswm i chi dros hyn. Bydd Arolygydd yn parhau i ymdrin â'r achos, ond byddant yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru, gyda'u hargymhellion. Ni fydd adroddiad yr Arolygydd ar gael yn gyhoeddus hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r penderfyniad terfynol.

### 5. Terfyn amser ar gyfer gwneud apêl

5.1 Pan fydd ymgeisydd ar gyfer trwydded neu ddeiliad trwydded presennol yn dod i'r casgliad bod angen gwneud apêl, rhaid i'r apêl gael ei chofnodi o

few **28 diwrnod o dderbyn penderfyniad CNC**<sup>2</sup>. Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth/dogfennau ategol hefyd o fewn y cyfnod hwn.

- 5.2 Os bydd CNC yn methu â phenderfynu ar gais o fewn y cyfnod amser statudol (y gellir ei estyn drwy gydgytundeb), rhaid gwneud apêl o fewn 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod hwn. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, gall yr Arolygiaeth Gynllunio ganiatáu apeliadau wedi'r amser hwnnw.

## 6. Hysbysiad o apêl

- 6.1 Rhaid gwneud yr hysbysiad o apêl ar y ffurflen briodol, y gellir ei chael oddi wrth:

Arolygiaeth Gynllunio Cymru  
Adeilad y Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940

E-bost: [wales@planninginspectorate.gov.uk](mailto:wales@planninginspectorate.gov.uk)

- 6.2 Dylai'r ffurflen apelio gynnwys y canlynol:

- Copi o'r cais perthnasol;
- Unrhyw wybodaeth neu ddogfennau ategol a gyflwynwyd i CNC;
- Copi o'r hysbysiad penderfyniad (os oes un); ac
- Unrhyw ddogfennau eraill, gan gynnwys mapiau a chynlluniau a gohebiaeth rhwng y partïon sy'n berthnasol i'r apêl.

- 6.3 Ar yr un pryd ag anfon yr hysbysiad o apêl at yr Arolygiaeth Gynllunio, dylid anfon copi at swyddfa berthnasol CNC.

## 7. Effaith gwneud apêl

- 7.1 Os gwneir apêl yn erbyn naill ai (i) penderfyniad CNC i wrthod trwydded neu (ii) methiant CNC i benderfynu ar y cais o fewn y cyfnod rhagnodedig, nid oes unrhyw drwydded mewn grym hyd nes ac oni bai y caniateir yr apêl. Os rhoddir trwydded yn amodol ar amodau a gwneir apêl yn erbyn rhai o'r amodau, mae'r amodau hynny'n berthnasol hyd nes y bydd yr apêl wedi'i phenderfynu a chânt eu haddasu neu eu dileu.

## 8. Camau gweithredu ar ôl derbyn apêl

---

<sup>2</sup> Rheoliad 12(2) Rheoliadau 2006; Rhan 3 yr Atodlen paragraffau 11 a 12 Rheoliadau 2017; Rheoliad 11(2) Rheoliadau 2003

- 8.1 Pan dderbynnir apêl, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwirio'r apêl i weld a yw'n ddilys. Rhaid gwneud apêl ddilys o fewn y cyfnod apelio a rhaid cynnwys yr holl ddogfennaeth ategol. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio ofyn am ddogfennau coll gan yr apelydd. Fodd bynnag, os yw'r apêl yn hwyr neu'n anghyflawn, gall yr Arolygiaeth Gynllunio benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.
- 8.2 Ar ôl penderfynu bod apêl yn ddilys, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifennu at CNC i'w hysbysu bod yr apêl wedi'i derbyn, ac os yw'r apelydd wedi gofyn i'r apêl fynd yn ei blaen trwy sylwadau ysgrifenedig, gofynnir a yw CNC yn cytuno i hyn neu a fyddent yn dymuno cael gwrandawriad neu ymchwiliad lleol.

## 9. Gweithdrefnau apeliadau

- 9.1 Mae'r Rheoliadau<sup>3</sup> yn rhagnodi gweithdrefnau apeliadau ond mae'r rhain yn brin o fanylion. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi defnyddio hanfod y rheoliadau rhagnodedig, er y gall y terfynau amser amrywio rhywfaint, i lunio gweithdrefn fanylach yr ystyrir ei bod yn fwy buddiol ac effeithlon i bob parti.

### Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig

- 9.2 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifennu at yr apelydd ac at CNC i roi hysbysiad o'r dyddiad dechrau ar gyfer apêl. Bydd y llythyr dechrau yn cadarnhau manylion cyswllt y swyddog achos a'r weithdrefn i'w mabwysiadu. Y dyddiad dechrau yw'r dyddiad y bydd y cloc yn dechrau ticio ar gyfer cyflwyno sylwadau pellach, a bydd y llythyr yn nodi'r amserlen sy'n berthnasol i'r apelydd ac i CNC. **Cyfrifoldeb y partïon yw cadw at yr amserlen hon – ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn anfon nodiadau atgoffa.**

### Y terfyn amser o bythefnos

- 9.3 O fewn pythefnos i'r dyddiad dechrau, rhaid i CNC hysbysu personau â buddiant ynghylch yr apêl. Rhaid i CNC anfon copi o'r hysbysiad at yr Arolygiaeth Gynllunio a rhestr o'r personau a hysbyswyd ac unrhyw ddogfennau eraill y maent yn eu hystyried yn berthnasol.

### Y terfyn amser o 6 wythnos

- 9.4 Rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn **datganiadau achos** yr apelydd a CNC, sy'n nodi eu dadl, o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau. Mae'n bosibl y bydd apelydd eisiau dibynnu'n unig ar eu

---

<sup>3</sup> Rheoliadau 2006, Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2003

sail dros apelio sydd yn y ffurflen apelio. Nid oes rhaid i'r datganiad fod mewn unrhyw fformat penodol a gellir ei gyflwyno ar bapur neu'n electronig. Dylai datganiad achos fod yn gryno a dylai ganolbwyntio ar y prif faterion. Dylai nodi'r ffeithiau, y rhesymu a'r casgliadau allweddol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno'r achos ar ffurf resymegol. Os bydd y naill barti neu'r llall yn penderfynu peidio ag anfon datganiad achos o fewn 6 wythnos, byddant yn parhau i fod â chyfle i wneud sylwadau ar y datganiadau a'r sylwadau a gyflwynwyd gan y parti arall (*gweler y terfyn amser o 9 wythnos isod*).

- 9.5 Hefyd, rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn unrhyw sylwadau gan bersonau â buddiant o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau.
- 9.6 Anfonir copïau o'r holl ddatganiadau a sylwadau a dderbynnir gan yr Arolygiaeth Gynllunio o fewn yr amser penodedig at yr apelydd ac at CNC ar ôl i'r terfyn amser fynd heibio.

*Y terfyn amser o 9 wythnos*

- 9.7 O fewn 9 wythnos o'r dyddiad dechrau, gall yr apelydd a CNC wneud sylwadau ar eu datganiadau ei gilydd ac ar unrhyw sylwadau a gyflwynir gan bartion â buddiant. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i'r apelydd a CNC fod wedi rhoi eu holl dystiolaeth yn y sail dros apelio a'r datganiadau achos, felly rhaid peidio â defnyddio'r cyfle i wneud sylwadau o fewn 9 wythnos fel ffordd o gyflwyno deunydd newydd neu gyflwyno dadleuon y dylid fod wedi'u cynnwys yn y datganiad 6 wythnos. **Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwrthod ac yn dychwelyd sylwadau a dderbynnir ar y cam hwn os byddant yn codi materion newydd.**

*Ymweliad â'r Safle*

- 9.8 Os oes angen ymweld â'r safle, mae'n arferol i gynrychiolwyr y ddau barti fynd gyda'r Arolygydd ar yr ymweliad â'r safle, er mwyn cael mynediad i'r safle. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygydd yn caniatáu unrhyw drafodaeth am deilyngdod yr achos a byddant yn cyfyngu cwestiynau i nodweddion ffisegol y safle ei hun.

*Gwrandawladau*

- 9.9 Mae gwrandawriad yn galluogi'r partion i gyflwyno eu hachos mewn awyrgylch mwy hamddenol a llai ffurfiol nag mewn ymchwiliad (*gweler isod*). Fel arfer, mae ar ffurf trafodaeth dan arweiniad yr Arolygydd, a dilynir hyn gan ymweliad â'r safle. Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu felly, gellir ymestyn y drafodaeth i'r safle.
- 9.10 Gall y naill barti neu'r llall ofyn am wrandawriad neu gall yr Arolygiaeth Gynllunio benderfynu bod angen gwrandawriad os oes materion cymharol

gymhleth yn codi. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yr un fath â'r amserlen ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, h.y. o fewn 6 wythnos a 9 wythnos o'r dyddiad dechrau. Caniateir i drigolion lleol a phersonau eraill â buddiant fynychu gwrandawriad, ac yn ôl disgresiwn yr Arolygydd, rhoi eu barn.

9.11 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adegau pan godir materion arbennig o gymhleth neu a fydd yn achosi llawer o ddadlau, lle byddai gweithdrefn fwy ffurfiol yn briodol. Mewn achosion o'r fath, byddai'r gwrandawriad yn debycach i ymchwiliad cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau priodol cyn y gwrandawriad. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu pa weithdrefn fydd yn cael ei mabwysiadu yn y gwrandawriad ar ôl ystyried yr holl ddeunydd ar y ffeil.

### Ymchwiliadau

9.12 Gall y naill barti neu'r llall ofyn am ymchwiliad cyhoeddus, neu gall yr Arolygiaeth Gynllunio benderfynu bod angen un, ond dylai'r weithdrefn hon fod yn berthnasol mewn achosion eithriadol yn unig. Er enghraifft, lle y cyflwynir tystiolaeth dechnegol arbennig o gymhleth neu y gallai fod angen croesholi, neu le mae nifer fawr o gyflwyniadau neu lawer iawn o ddiddordeb cyhoeddus.

9.13 Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yr un fath â'r amserlen ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, h.y. o fewn 6 wythnos a 9 wythnos o'r dyddiad dechrau.

9.14 Heb fod yn hwyrach na 4 wythnos cyn yr ymchwiliad, dylid cyflwyno prawf y dystiolaeth, a datganiad tir cyffredin yn ogystal. Mae prawf y dystiolaeth yn ddatganiad ysgrifenedig o'r dystiolaeth y mae tyst yn bwriadu ei rhoi yn yr ymchwiliad ac, os yw'n fwy na 1,500 o eiriau o ran ei hyd, dylid cael crynodeb hefyd nad yw'n fwy na 10% o hyd y prawf. Mae datganiad tir cyffredin yn rhestr o'r holl faterion y mae'r apelydd a CNC yn cytuno yn eu cylch.

9.15 Mae ymchwiliad yn fwy ffurfiol na gwrandawriad, ac fel arfer, mae'n dechrau gyda datganiadau agoriadol byr gan y ddau brif barti. Wedyn, maen nhw'n galw eu tystion i roi eu tystiolaeth, a gall yr ochr arall eu croesholi. Fel rheol, bydd CNC yn cyflwyno eu hachos yn gyntaf. Gall partiön eraill â buddiant fynychu'r ymchwiliad hefyd, ac fel arfer, caniateir iddynt roi eu barn.

## **10. Penderfyniadau ar apeliadau**

### Penderfyniad yr Arolygydd

10.1 Bydd penderfyniad yr Arolygydd yn cael ei anfon at yr apelydd ac at CNC ar yr un pryd. Anfonir copïau at bersonau â buddiant sydd wedi gofyn am gopi, oni bai bod cyfrinachedd yn ystyriaeth. Bydd y penderfyniad yn cynnwys y pwyntiau pwysig a pherthnasol sy'n llywio penderfyniad yr Arolygydd. Gall Arolygydd benderfynu y caiff yr apêl ei gwrthod, ei chaniatáu neu ei chaniatáu ag amodau.



10.2 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn anelu at gyhoeddi penderfyniad yr Arolygydd o fewn y fframiau amser canlynol:

Sylwadau Ysgrifenedig – 14 wythnos (o'r dyddiad dechrau)

Gwrandawiadau – 21 wythnos (o'r dyddiad dechrau)

Ymchwiliadau – 29 wythnos (o'r dyddiad dechrau)

### Penderfyniadau Gweinidogion Cymru

10.3 Yn yr achosion hyn, gweler paragraff 4.1 uchod, bydd yr Arolygydd yn anfon adroddiad at Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r safle ac yn rhoi crynodeb o'r dadleuon a'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Hefyd, bydd yr Arolygydd yn argymhell p'un ai y dylid caniatáu'r apêl ai peidio. Wedyn, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr holl faterion dan sylw, ac anfonir eu penderfyniad at yr apelydd ac at CNC gyda chopi o adroddiad yr Arolygydd. Ni fydd adroddiad yr Arolygydd ar gael i'r cyhoedd hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r penderfyniad terfynol.

## **11. Gwybodaeth ychwanegol**

### Tynnu apeliadau yn ôl

11.1 Gall apelydd dynnu eu hapêl yn ôl ar unrhyw adeg, cyn belled â bod hysbysiad ysgrifenedig yn cael ei anfon at yr Arolygiaeth Gynllunio.

### Cyfrinachedd

11.2 Mewn achosion lle mae'r apelydd o'r farn y bydd materion yn ymwneud â chyfrinachedd yn codi yn ystod yr apêl, gellir adfer yr achos i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, os mai mân bwyntiau yn yr apêl yw'r rhain, bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar yr apêl ond gan ymdrin â'r pwyntiau hyn yn gyfrinachol.

### Aseswyr

11.3 Yn eithriadol, yn achos rhai ymchwiliadau, gall yr Arolygiaeth Gynllunio benodi asesydd ar ran Gweinidogion Cymru i gynghori'r Arolygydd ar faterion technegol penodol. Bydd yr asesydd yn eistedd ochr yn ochr â'r Arolygydd ac yn ystyried y sylwadau a wneir. Bydd yr asesydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer yr Arolygydd, a bydd ei gynnwys yn cael ei gyhoeddi (oni bai bod rhesymau yn ymwneud â chyfrinachedd yn berthnasol) pan gyhoeddir y penderfyniad.

11.4 Pan benodir asesydd, hysbysir pawb sydd â hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad am enw'r asesydd a'r materion y byddant yn cynghori'r Arolygydd yn eu cylch.

## 12. Adborth a chwynion

- 12.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu adborth, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, am brofiad pobl â'r sefydliad.
- 12.2 Mae'r tîm Ansawdd yn ymdrin â chwynion yn erbyn penderfyniad gan Arolygydd, neu yn erbyn Arolygydd, neu'r ffordd y gweinyddwyd achos gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu i darged o 99% o benderfyniadau yn rhydd o gwynion y gellir eu cyfiawnhau neu her gyfreithiol lwyddiannus. Caiff pob cwyn ei harchwilio yn drylwyr ac yn ddiuedd.

## 13. Heriau

- 13.1 Mae unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad yn gallu herio'r penderfyniad dim ond drwy wneud cais am adolygiad barnwrol gan y Llysoedd. Os bydd yr her yn llwyddiannus, bydd y llys yn dileu'r penderfyniad ac yn gofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio ailbenderfynu ar yr achos.
- 13.2 Rhaid i'r Llys Gweinyddol dderbyn ceisiadau am adolygiad barnwrol cyn gynted ag y bo modd, ac mewn unrhyw achos, o fewn 3 mis o ddyddiad y penderfyniad, oni bai bod y Llys yn estyn y cyfnod hwn.
- 13.3 Gellir cael cyngor pellach gan y Llys Gweinyddol ar wneud her yn yr Uchel Lys, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol:

Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, Ffôn: 029 20376400  
2 Stryd y Parc Gwefan: <http://www.justice.gov.uk/>  
Caerdydd  
CF10 1ET

## 14. Sut mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

- 14.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn derbyn data personol gan yr apelydd, gan CNC a gan bersonau eraill â buddiant sy'n darparu sylwadau. Fel arfer, mae'r data personol yn cynnwys enw a manylion cyswllt ac unrhyw ddata personol eraill a gynhwysir yn eu sylwadau.
- 14.2 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn anfon copïau o sylwadau a dderbynnir at yr apelydd, at CNC ac at unrhyw bartion statudol eraill yn yr apêl.
- 14.3 Mae rhagor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio ar gael yn <http://planninginspectorate.gov.wales/?lang=cy> neu ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y polisi, neu os ydych eisiau gofyn am eich data personol, cysylltwch â'r Arolygiaeth Gynllunio.

Cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio

14.4 Os hoffech drafod apêl benodol, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Swyddog Achos. Ar gyfer ymholiadau cyffredinol:

Arolygiaeth Gynllunio Cymru  
Adeilad y Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

Llinell Ymholiadau Cyffredinol: 0303 444 5940  
E-bost: [wales@planninginspectorate.gov.uk](mailto:wales@planninginspectorate.gov.uk)

Mae rhagor o wybodaeth am yr Arolygiaeth Gynllunio ar gael yn:  
<http://planninginspectorate.gov.wales/?lang=cy>